

YR ACHOS O BLAID NEWID: BREXIT, DATGANOLI

A'R UNDEB

PRYNHAWN DA.

MAE'R STEDDFOD WEDI DYCHWELYD I LANRWST. FUODD HI YMA YN 1989, A DAETH YR EISTEDDFOD I LANRWST HEFYD YN YSTOD HAF 1951. BRYD HYNNY, FEL ELENÍ, CAFODD EI CHYNNAL O FEWN WYTHNOSAU'N UNIG I BENODI PRIF WEINIDOG NEWYDD YN SAN STEFFAN, A HYNNY AR ADEG O ARGYFWNG YN Y BERTHYNAS RHWNG PRYDAIN AC IRAN. WINSTON CHURCHILL OEDD Y PRIF WEINIDOG HWNNW, AC RWY'N DEALL MAI DYMA'R RHAGFLAENYDD Y MAE'R PRIF WEINIDOG PRESENNOL YN FWYAF AWYDDUS I'W EFELYCHU.

WN I DDIM A OEDD PRIF WEINIDOGION NEWYDD Y DYDDIAU HYNNY YN MYND AR DAITH O AMGYLCH GWLEDYDD PRYDAIN AR ÔL DECHRAU YN EU SWYDD. NAC OEDDEN, MAE'N DEBYG, AC ALLA I DDIM

**DYCHMYGU Y BYDDAI CHURCHILL WEDI CAEL CROESO
CYNNES YNG NGHYMRU BETH BYNNAG.**

**OND YR WYTHNOS DIWETHAF, WRTH GWRS, DAETH
BORIS JOHNSON I'R SENEDD YM MAE CAERDYDD, AC FE
WNES I GWRDD AG E GYDA PHRIF WEINIDOG CYMRU.
YN YSTOD Y SGWRS, ROEDD E WRTH EI FODD I GLYWED
MOD I A'R YSGRIFFENNYDD GWLADOL WEDI BOD YN
GYFOEDION YN YR UN YSGOL - SEF YSGOL GYFUN
YSTALYFERA. GWNAETH E YMDRECH WEDDOL GYDA'R
YNGANIAD OND ROEDD YN AMLWG WRTH EI EDRYCHAD
NAD OEDD FY ALMA MATER YN UN O'R YSGOLION
HYNNY YR OEDD WEDI BOD AR RADAR BORIS JOHNSON
CYN HYNNY, ER GWAETHA'R FFAITH EIN BOD NI YMA N
GWYBOD WRTH GWRS MAI ETON CYMRU YW
YSTALYFERA.**

**OND FE GAFODD WYBOD YN GLIR DDIGON BETH YW
SAFBWYNT LLYWODRAETH CYMRU YNGLYN A'I BOLISI
AR BREXIT. RYCH CHI'N GWYBOD WRTH GWRS EIN BOD
YN CREDU Y DYLAI CYMRU AROS YN YR UNDEB**

**EWROPEAIDD, AC YN CREDU BOD ANGEN MYND YN ÔL
NAWR AT Y BOBL, I'R BOBL GAEL LEISIO'U BARN.
RYDYN NI WEDI GALW AM AIL REFFERENDWM, AC OS
LWYDDWN NI GAEL REFFERENDWM, FE FYDDWN NI'N
DADLAU'N GRYF O BLAID AROS, FEL Y GWNAETHON NI
YN 2016.**

**MAE'N EDRYCH YN DEBYG MAI PARATOI AR GYFER
BREXIT HEB GYTUNDEB YW PRIF FLAENORIAETH Y PRIF
WEINIDOG NEWYDD YN SAN STEFFAN. OND, WAETH
FAINT O BARATOI SY'N DIGWYDD, DOES DIM MODD
LLINIARU'N LLWYR YR EFFEITHIAU TRYCHINEBUS A
FYDDAI'N DOD YN SGIL GADAEL HEB GYTUNDEB. MAE'N
YMDDANGOS NAD YW BORIS JOHNSON YN DEALL
HYNNY.**

**MAE EI ORYMDAITH O AMGYLCH Y GWLEDYDD
DATGANOLEDIG, A'R FFORDD MAE WEDI MYND ATI
MEWN FFORDD GYHOEDDUS AMLWG IAWN I
GYFLYMU'R PARATOADAU AR GYFER YMADAEL, YN
GOLYGU BOD Y BREXIT CALED NEU'R BREXIT HEB**

GYTUNDEB MAE E'N EI GEFNOGI NAWR AR FLAEN Y LLWYFAN. AC YN OGYSTAL Â HYNNY (AC OHERWYDD HYNNY, YN RHANNOL, WRTH GWRS) MAE'R CWESTIWN YNGLŶN Â DYFODOL UNDEB Y DEYRNAS UNEDIG WEDI DOD YN AMLWG HEFYD.

YM MIS IONAWR FE YSGRIFENNAIS I DDARN YN YR HUFFINGTON POST, YN DADLAU BOD BREXIT YN FYGYTHIAD DIRFODOL I UNDEB Y DEYRNAS UNEDIG. FY MWRIAD I OEDD CEISIO ANERCH CYNULLEIDFA BENODOL – HYNNY YW Y GARFAN SYLWEDDOL O BOBL SYDD FEL PETAEN NHW'N POENI DIM AM SEFYLLFA FYDDAI'N ARWAIN AT DDINISTRIO SECTORAU CYFAN O'N HECONOMI NI, YN TARFU AR FYWYD TEULUOL MILOEDD O DDINASYDDION O WEDDILL YR UNDEB EWROPEAIDD SYDD WEDI GWNEUD EU CARTREF YMA YNG NGHYMURU AC YNG NGWEDDILL Y DEYRNAS UNEDIG. SEFYLLFA FYDDAI'N GOLYGU COLLI CANNOEDD O FILIYNAU O BUNNOEDD O GYMORTH ARIANNOL AR GYFER SEILWAITH, SGILIAU AC YMCHWIL GWYDDONOL O'R RADD FLAENAF.

OS NAD YW HYNNY'N GWNEUD IDDYN NHW BOENI, Y GOBAITH OEDD BYDDAI CAEL PERSWAD ARNYNT WRTH IDDYN NHW SYLWEDDOLI GALLAI BREXIT CALED DDINISTRIO'R UNION BETH YR OEDDEN NHW'N HONNI EU BOD AM EI WELD YN FFYNNU, SEF Y DEYRNAS UNEDIG EI HUN.

OND GWNAETH SAWL UN O'R RHEINY SY'N CEFNOGI BREXIT CALED AWGRYMU YN HYTRACH Y BYDDAI COLLI UNDEB Y DEYRNAS UNEDIG YN BRIS SY'N WERTH EI DALU ER MWYN BOD YN 'RHYDD' (YN EU GEIRIAU NHW) O'R UNDEB ARALL HONNO - YR UNDEB EWROPEAIDD.

DYMA'R DDADL: BYDDAI BREXIT CALED, AC YN SICR BREXIT HEB GYTUNDEB, YN CAEL EFFAITH DDINISTRIOL AR RAN HELAETH O'R DEYRNAS UNEDIG. BYDDAI HYNNY'N YSGOGI YMG AIS ARALL AM ANNIBYNNIAETH I'R ALBAN, YN UNOL AG UCHELGAIS GYFANSODDIADOL LLYWODRAETH YR ALBAN. BYDDAI'R EFFAITH ANDWYOL AR OGLEDD IWERDDON, A'R FFIN GYDA'R

**WERINIAETH, YN CODI'R POSIBILRWYDD O BLEIDLAIS
YNGLŶN Â'R FFIN YNO [BORDER POLL]- RHYWBETH
SYDD YN CAEL EI DRIN O DDIFRI AR LEFEL UCHAF
LLYWODRAETH Y DEYRNAS UNEDIG.**

**MAE LLAWER O DRAFODAETH WEDI BOD AR Y PWNC
YMA ERBYN HYN. MAE'R PWYSLAIS WEDI BOD YN
BENNAF AR GWESTIWN YR ALBAN A GOGLEDD
IWERDDON - MAE LLYWODRAETH YR SNP BELLACH
WEDI CYFLWYNO BIL I HWYLUSO REFFERENDWM
ARALL, AC YCHYDIG DDYDDIAU NÔL FE GLYWSON NI'R
TAOISEACH YN DAMCANIAETHU'N AGORED AM Y TWF YN
Y GEFNOGAETH YMYSG POBL GOGLEDD IWERDDON I
AILUNO Â'R DE.**

**OND MAE MWY A MWY O DDIDDORDEB - YN SICR YMA
YNG NGHYMRU, AC O'R TU ALLAN HEFYD I RADDAU - YN
YR HYN Y BYDDAI CYMRU'N EI WNEUD YN YR
AMGYLCHIADAU HYNNY - HYNNY YW PE BYDDAI BREXIT
GALED YN PERI I RHAI O'R CENHEDLOEDD ERAILL
ADAEL YR UNDEB - AC YN WIR MEWN UNRHYW**

**SEFYLLFA AR ÔL BREXIT – YN ENWEDIG OS BYDD Y
CANLYNIADAU MOR DRYCHINEBUS I NI FEL GWLAD AG
YR YDYN NI YN Y LLYWODRAETH, YNGHYD Â LLAWER
ARALL, YN EI GREDDU.**

**WEL, YN AMLWG, Y MAN CYCHWYN YW HYN :
CYDNABYDDIAETH FOD Y DEYRNAS UNEDIG, BETH
BYNNAG FO'I THARDDIAD, ERBYN HEDDIW YN
GYMUNED WIRFODDOL O WLEDYDD. AC FELLY MAE
CYDSYNIAD DINASYDDION Y GWLEDYDD SY'N RHAN O'R
UNDEB YN ELFEN GWBWL HANFODOL IDDI BARHAU.**

**HOFFWN I DYNNU SYLW YN Y FAN YMA AT
DDATBLYGIAD EITHAF ARWYDDOCAOL YN Y FFORDD
MAE LLYWODRAETH Y DEYRNAS UNEDIG YN SIARAD AM
HYN. ROEDD ARAITH THERESA MAY YN YR ALBAN
YCHYDIG WYTHNOSAU YN OL PAN WNAETH HI
GYHOEDDI ADOLYGIAD DUNLOP YN SIOMEDIG MEWN
SAWL FFORDD, OND UN ELFEN BWYSIG YNDDI OEDD
IDDI GYDNABOD BOD ANGEN I'R UNDEB ALLU SICRHAU
CEFNOGAETH EI DDINASYDDION. "WNAIFF YR UNDEB**

**OROESI" MEDDE HI "CYHYD A BOD Y BOBL EISIAU IDDO
OROESI – CYHYD A BOD CEFNOGAETH IDDO YMHLITH Y
CYHOEDD YN YR ALBAN A CHYMRU, LLOEGR A GOGLEDD
IWERDDON".**

**NAWR, OS YDYCH CHI - FEL SAWL UN OHONOM NI – Y
ARDEL EGWYDDORION SYBSIDIAREDD
[SUBSIDIARITY], AC YN DERBYN BOD SOFRANIAETH YN
Y PENDRAW YN NWYLO'R BOBL, DYW HYN DDIM YN
BETH EITHRIADOL. OND MAE'N DAL I FOD YN
ARWYDDOCAOL CLYWED PRIF WEINIDOG Y DEYRNAS
UNEDIG YN DEWIS CYDNABOD MAI YMDRECH
WIRFODDOL YW'R UNDEB.**

**CAWN WELD A YW'R PRIF WEINIDOG NEWYDD YN SAN
STEFFAN YN DDIGON CRAFF I DDEALL Y REALITI HWN
HEFYD.**

**FELLY, A YDY HYN YN GOLYGU, FEL MAE RHAI
SYLWEBWYR WEDI AWGRYMU EISOES, BOD**

**LLYWODRAETH CYMRU EI HUN YN DECHRAU TEIMLO'N
'INDY-CURIOUS'?**

**GADEWCH I MI DDWEUD YN GLIR BETH YW EIN
SAFBWYNT NI. RYDYN NI'N DAL I GREDU YN YR UNDEB.
MEWN BYD SY'N 'GLOBALEIDDIO' MWY A MWY, DYDYN
NI DDIM YN CREDU EI BOD HI'N GWNEUD SYNNEWYR
RHOI'R GORAU I GEISIO GWNEUD I'R BERTHYNAS
HANESYDDOL GYDA'N CYMDOGION AGOSAF WEITHIO ER
LLES Y DDWY OCHR – RYDYN NI'N CREDU BOD RHANNU
RISGIAU A MANTEISION AR DRAWS Y PEDAIR GWLAD O
LES I'N POBL NI.**

**RYDYN NI EISIAU I'R UNDEB WEITHIO – OND I
WEITHIO'N WELL.**

**A GAN EIN BOD NI'N CREDU MAI CYMDEITHAS
WIRFODDOL O WLEDYDD YW'R DEYRNAS UNEDIG,
MAE'N DILYN EIN BOD NI HEFYD YN CYDNABOD Y**

POSIBILRWYDD Y GALLAI RHAI RHANNAU O'R DEYRNAS UNEDIG DDEWIS PEIDIO BOD YN RHAN OHONI BELLACH. A PHE BAI HYNNY'N DIGWYDD, BYDDAI'N RHAID I UNRHYW LYWODRAETH SYNHWYROL AIL-ASESU LLE CYMRU YN Y DEYRNAS UNEDIG.

RWY'N CREDU BOD PRIF WEINIDOG CYMRU YN GYWIR I DDWEUD NA ALL UNRHYW WLEIDYDD ROI SICRWYDD DIAMOD, TRAGWYDDOL, Y BYDD Y TREFNIADAU CYFANSODDIADOL PENODOL SYDD GYDA NI AR UNRHYW FOMENT YN PARHAU I FOD Y TREFNIADAU GORAU DAN UNRHYW AMGYLCHIADAU POSIB. OND, ER Y GALLAI CYD-DESTUN GWLEIDYDDOL YR UNDEB, A'I GYFANSODDIAD GWLEIDYDDOL HYD YN OED, NEWID AR RYW ADEG YN Y DYFODOL, SIAWNS Y BYDDEN NI HYD YN OED BRYD HYNNY AM DDEFNYDDIO'R UN PRAWF AG Y BYDDEN NI HEDDIW, I GANFOD A YW'R UNDEB YN DAL I FOD YM MUDDIANNAU GORAU CYMRU?

DWYF I DDIM EISIAU AWGRYMU AM EILIAD MAI
PERTHYNAS JYST ER HWYLUSTOD YN UNIG YW'R UNDEB
- PERTHYNAS YMARFEROL SY'N CANOLBWYNTIO AR
DDIM OND Y BWLCH CYLLIDOL, TROSGLWYDDO
ADNODDAU A SICRHAU MYNEDIAD I FARCHNADOEDD.
NA DIM O GWBL. OND DWY DDIM CHWAITH YN CREDU Y
DYLEN NI DRIN YR UNDEB FEL RHYW GRAIR CYFRINIOL
GYDAI WREIDDIAU YN NIWLOEDD Y CYNFYD, FEL
PETAI'N WIRIONEDD DRAGWYDDOL, DINEWID, YN CAEL
EI GYNNAL GAN ELGAR A 'R UNION JACK.

GAN DDEFNYDDIO'R UNDEB ARALL, YR UNDEB
EWROPEAIDD, FEL ESIAMPL, RWY'N CREDU Y DYLAI
HEFYD FOD YN BOSIB YSTYRIED YR UNDEB, AR EI
ORAU, FEL UNDEB O WERTHOEDD. NAWR GAI JYST
DDWEUD YN SYTH MOD I'N DERBYN YN LLWYR NA FU
ERIOED ADEG LAI FFAFRIOL I GYFLWYNO'R ACHOS
HWN, O GOFIO'R MATH O LYWODRAETH A GAFODD EI
FFURFIO YN SAN STEFFAN YR WYTHNOS DIWETHAF A'R
GAGENDOR RHYNGDDI A'N GWERTHOEDD NI.

OND, YR HYN SY'N HANFODOL I'R MATH O WLEIDYDDIAETH CYDYMDDIBYNIAD [SOLIDARITY] YR YDW I A MILOEDD O BOBL ERAILL YNG NGHYMRU YN CREDU YNDDO - A HYNNY BETH BYNNAG FO GWEDD WLEIDYDDOL LLYWODRAETH Y DEYRNAS UNEDIG O BRYD I'W GILYDD - YR HYN SY'N HANFODOL I HYNNY YW'R GALLU I YMESTYN EIN GWERTHOEDD A'N HYMRODDIAD I GYDSAFIAD AC I RHANNU EIN HADNODDAU AR DRAWS YR UNDEB. A GWNEUD HYNNY, DWEDWCH, ER LLES GWEITHIWR DUR YN MIDDLESBROUGH YN OGYSTAL Â'R GWEITHIWR DUR YNG NGLANNAU DYFRDWY; ER LLES GWNEUTHURWYR CEIR PENYBONT YN OGYSTAL AG ELLESMERE PORT.

MAE'R DDAU UNDEB YN GYFRWNG INNI ALLU DATGAN CEFNOGAETH A BRAWDOLIAETH AR DRAWS FFINIAU DAEARYDDOL, I'R RHAI RYM NI'N DEWIS EU CYNNWYS O FEWN EIN CYLCH GOFAL, EIN CYMUNED.

**A GWIREDDU HYNNY YN WLEIDYDDOL DRWY
GEFNOGI'N GILYDD AC, YN Y PEN DRAW - I'R RHAI
OHONOM SYDD AR Y CHWITH O LEIA - DRWY
AILDDOSBARTHU PWER AC ADNODDAU.**

**OND RWY HEFYD YN CREDU BOD POBL CYMRU'N
HAEDDU TRAFODAETH WELL NA'R HYN MAE'R
DOSBARTH GWLEIDYDDOL YN EI GYNNAL AR Y
CWESTIWN HWN. A NID TRAFODAETH RHWNG Y
PLEIDIAU YN UNIG YW HON, OND TRAFODAETH O FEWN
Y PLEIDIAU HEFYD, OHERWYDD MAE BOD YN AGORED I
DDYFODOL CYFANSODDIADOL GWAHANOL - HYD AT
ANNIBYNNIAETH A CHAN GYNNWYS ANNIBYNNIAETH – YN
SAFBWYNT GALLWN EISOES EI WELD MEWN MWY NAG
UN PLAID, YN CYNNWYS RHANNAU O 'MHLAID I. 'DYW E
DDIM YN FATER SY'N EIDDO I UN BLAID YN UNIG.**

**AC MAE ANGEN I'R RHEINI SY'N DADLAU O BLAID
ANNIBYNNIAETH GYNNIG MWY NA'R SYNWYR O
RHAGLUNIAETH ANOCHEL, SYDD AR GYNNIG AR HYN O**

**BRYD. MAE'N YMDDANGOS I MI FOD GYDA NI ACHOS
DROS ANNIBYNNIAETH SY'N RHY AML JYST YN GYMWYS
AT OES TWITTER – ANNIBYNNIAETH MEWN JYST DAU
GANT WYTHDEG LLYTHYREN - OND GALLWN NI WELD
YN BERFFAITH GLIR BERYGLON Y MATH HYNNY O
YMGYRCH O'N HAMGYLCH GYDA BREXIT.**

**FELLY MAE ANGEN I'R RHEINI SYDD O BLAID
ANNIBYNNIAETH DRAFOD Y CWESTIYNAU ANODD
YNGLŶN A HYNNY - BETH FYDDAI'R PRIS I'W DALU
YNGHYD A'R MANTEISION ARFAETHEDIG. GAN FYND I'R
AFAEL, HYNNY YW, GYDA'R MATH O GWESTIYNAU Y MAE
LLANAST BREXIT WEDI GORFODI POBL I'W HYSTYRIED.
A BOD YN AGORED I'W CRAFFU.**

**AC MAE ANGEN HEFYD I'R RHAI OHONOM SY'N ARDDEL
LLWYBR CYFANSODDIADIOL GWAHANOL AR GYFER
DYFODOL CYMRU, YN HYTRACH NAG ANNIBYNNIAETH,
GYDNABOD BOD Y MATER BELLACH YN CAEL EI DRAFOD
YN FWY HELAETH NAG O'R BLAEN AC MAE'N RHAID**

**DANGOS PARCH AT DDIDDORDEB POBL YN Y SYNIAD, A
NID JYST GWRTHOD YMWNEUD. FE DDYLEN NI
BARCHU'R DDADL, HYD YN OED OS NAD YDYN NI'N
CYTUNO Â HI. PARCHU, A CRAFFU, AC ATEB Y DDADL.**

**OND EIN BLAENORIAETH NI FEL PLAID A FEL
LLYWODRAETH YW I AROS A DIWYGIO [REMAIN AND
REFORM, FEL PETAI] – AROS A DIWYGIO YN UNDEB Y
DEYRNAS UNEDIG FEL YN YR UNDEB EWROPEAIDD.
GWNEUD Y DEFNYDD GORAU POSIB O'R PWERAU SYDD
EISIOES GYDA NI A DADLAU DROS GAEL RHAI
EHANGACH - OND HYN OLL O FEWN TEYRNAS UNEDIG
SY'N PARHAU I GYNNIG Y MANTEISION Y MAE CYMRU
EISOES YN EU CAEL DRWY FOD YN AELOD.**

**OND MAE HYN YN GALW AM RAGLEN SYLWEDDOL O
DDIWYGIADAU.**

**FELLY WRTH INNI FEDDWL AM Y GYFLAFAN BOSIB A
DDAW YN SGIL BREXIT A CHYDNABOD Y FFAITH BOD
ANNIBYNNIAETH BELLACH YN DESTUN TRAFOD
AMLYCACH, DYLEN NI GOFIO HEFYD - WRTH DDATHLU
UGAIN MLYNEDD O DDATGANOLI - YR HOLL FANTEISION
MAE DATGANOLI WEDI'U RHOI I NI. A HYNNY ER
GWAETHA'R FFAITH NAD OEDD GENNYM BWERAU
DIGONOL AM Y DDEGAWD GYNTAF, NA CHYLLIDEB
DDIGONOL YN YR AIL DDEGAWD.**

**ER HYNNY, RYDYN NI WEDI DOD YN BELL ERS Y
FUDDUGOLIAETH HYNOD AGOS HONNO I'R YMGYRCH
'IE' YN REFFERENDWM 1997.**

**AR Y DECHRAU ROEDD GYDA NI GYNULLIAD OEDD YN
GORFF CORFFORAETHOL HEB UNRHYW BWERAU DEDDFU
SYLFAENOL. HEB UNRHYW GYFRIFOLDEBAU NEWYDD Y
TU HWNT I'R PWERAU GWEITHREDOL OEDD GAN Y
SWYDDFA GYMREIG.**

**BELLACH, MAE GENNYM SENEDD SYDD Â PHWERAU
DEDDFU LLAWN MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG, A
RHANIAD GO-IAWN RHWNG Y DDEDDFWRFA A'R
LLYWODRAETH. MAE EIN SEFYDLIADAU DATGANOLEDIG
YN RHAN ANNATOD O GYMRU A'R DEYRNAS UNEDIG
ERBYN HEDDIW. BYDDAI'N ANODD I BOBL O DAN 40
OED DDYCHMYGU BYD HEB DDATGANOLI. BYD SYDD
WEDI ARWAIN AT DDAU DDEGAWD O FANTEISION
GWIRIONEDDOL I BOBL CYMRU.**

**CYNNAL GWASANAETH IECHYD HEB FARCHNAD, YN
WIRIONEDDOL RHAD AC AM DDIM, BUDDSODDIAD
MEWN YSGOLION NEWYDD AR DRAWS CYMRU,
DEDDFWRIAETH I FYND I'R AFAEL A DIGARTREFEDD,
MESURAU I DDIOGELU A MEITHRIN YR IAITH
GYMRAEG, DEDDFWRIAETH AMGYLCHEDDOL AMGEN, A
DEDDFU AR GYFER CYNALIADWYEDD, AR FLAEN Y GAD
YN RHYNGWLADOL YN AILGYLCHU, A NIFER OF
FEYSYDD PWYSIG ERAILL.**

**MAE DATGANOLI YN CYFLAWNI AR RAN POBL CYMRU.
OND DOES JYST DIM MODD I'R SEFYLLFA BRESENNOL
BARHAU.**

**ER MWYN ADEILADU A CHYNNAL UNDEB WELL – UNDEB
SY'N ADLEWYRCHU EGWYDDOR SYBSIDIAREDD -
EGWYDDOR SYDD WEDI GYRRU EIN GALWADAU NI AM
BWERAU EHANGACH, UNDEB SY'N CYFLAWNI AR RAN EI
HOLL BOBL AR ÔL BREXIT, RHAID I'R FFORDD MAE
LLYWODRAETHAU'R DEYRNAS UNEDIG GYD-WEITHIO
NEWID, A RHAID DATGANOLI MWY O BWERAU I NI YNG
NGHYMRU.**

**MAE LLYWODRAETH CYMRU WEDI BOD AR FLAEN Y GAD
O RAN DADLAU'R ACHOS DROS NEWID, AC MAE
HYNNY'N BWYSICACH NAWR NAG ERIOED.**

**DROS DDWY FLYNEDD YN ÔL, CYHOEDDWDYD 'BREXIT A
DATGANOLI', SEF EIN HYMATEB NI I OBLYGIADAU
BREXIT I'R SETLIAD DATGANOLI, Y BERTHYNAS RHWNG**

Y LLYWODRAETHAU, A CHYFANSODDIAD Y DEYRNAS UNEDIG.

HYD YN OED CYN Y REFFERENDWM, ROEDD Y STRWYTHURAU RHYNGLYWODRAETHOL YN GWEGIAN, A DWEUD Y LLEIAF.

FELLY, ROEDD 'BREXIT A DATGANOLI' YN CYFLWYNO EIN GWELEDIGAETH AR GYFER DYFODOL DATGANOLI A'R BERTHYNAS RHWNG Y LLYWODRAETHAU. FE ALWON NI AM GYNGOR PWERUS O WEINIDOGION Y DEYRNAS UNEDIG SY'N ANNIBYNNOL AR Y LLYWODRAETHAU, I SUSTEM O DDATRYN ANGHYDFODAU MEWN FFORDD DEG A THRYLOYW. FE ALWON NI AM YSGRIFENYDDIAETH ANNIBYNNOL, AC FE ALWON NI AM GONFENSIWN CYFANSODDIADOL AR GYFER Y DEYRNAS UNEDIG I YSTYRIED SUT MAE ANGEN I GYFANSODDIAD Y DEYRNAS UNEDIG NEWID.

PAN GYHOEDDWDYD 'BREXIT A DATGANOLI', DOEDDEN NI DDIM YN HONNI BOD GENNYM ATEB I BOPETH - ROEDD YN FFORDD O GYCHWYN Y DRAFODAETH YR OEDD ANGEN EI CHAEL A CHEISIO DYLANWADU ARNI AR SAIL EGWYDDOR. FE DDYWEDOM NI: DYMA'R MATERION RYDYN NI'N EU HWYNEBU O GANLYNIAD I BREXIT, DYMA'R RHESYMAU PAM NA FYDD Y PEIRIANWAITH RHYNGLYWODRAETHOL SYDD GENNYM AR HYN O BRYD YN GWEITHIO MWYACH, A DYMA RYDYN NI'N EI GYNNIG ER MWYN NEWID PETHAU.

EFALLAI BOD RHAI OHONOC CHI WEDI FY NGHLYWED I'N SIARAD AM BREXIT A DATGANOLI YN NIGWYDDIAD CANOLFAN LLYWODRAETHIANT CYMRU YM MIS MEHEFIN, AC LLE RYN NI GYDA'R BROSES O DDIWYGIO'R BERTHYNAS RHYNGLYWODRAETHOL. FE OFYNNAIS I GWESTIWN: DDWY FLYNEDD YN DDIWEDDARACH, BETH SYDD WEDI NEWID? - A'R ATEB: DIM DIGON O BELL FFORDD.

WRTH GWRS, RYDYN NI WEDI GWELD UN NEWID CWBL SYFRDANOL ERS HYNNY, SEF PRIF WEINIDOG NEWYDD Y DEYRNAS UNEDIG A'I LYWODRAETH. BETH YW GOBLYGIADAU HYNNY?

WRTH EDRYCH AR Y CABINET NEWYDD YN SAN STEFFAN, RWY'N RHANNU PRYDERON PRIF WEINIDOG CYMRU: MAE BORIS JOHNSON WEDI GADAEL TIR CANOL GWLEIDYDDIAETH PRYDAIN, WEDI GWYRIO YN SYDYN I'R DDE AC FEL CANLYNIAD MAE'R BWLCH RHWNG BLAENORIAETHAU LLYWODRAETH CYMRU A RHAI LLYWODRAETH Y DEYRNAS UNEDIG YN EHangach NAWR NAG ERIOED.

O RAN Y GOBLYGIADAU PENODOL I GYSYLLTIADAU RHYNGLYWODRAETHOL, Y GWIR YW EI BOD HI'N RHY GYNNAR I DDWEUD.

**RWY'N WIR OBEITHIO Y BYDD MODD SEFYDLU
PERTHYNAS WAITH DDA GYDA'R GWEINIDOG YN SAN
STEFFAN FYDD A CHYFRIFOLDEB DROS BERTHYNASAU
GYDA'R LLYWODRAETHAU ERAILL - AC MAE HYNNY'N
DANGOS YN UNION BETH SYDD O'I LE. YN FY ARAITH
YM MIS MEHEFIN, FE WNES I DALU TEYRNGED I DAVID
LIDDINGTON, Y GWEINIDOG PERTHNASOL YN
LLYWODRAETH THERESA MAY A WNAETH BOB YMDRECH
AR LEFEL BERSONOL I CHWARAE RHAN GADARNHAOL
AC ADEILADOL YN EIN PERTHYNAS.**

**OND MAE GWEINIDOGION YN MYND A DOD, A 'DYW
SYSTEM FEL EIN SYSTEM NI, SY'N DIBYNNU CYMAINT
AR BERSONOLIAETHAU AC AR Y BERTHYNAS RHWNG
UNIGOLION ER MWYN LLWYDDO, DDIM YN GADARN NAC
YN GYNALIADWY. A PHAN FO'R SYSTEM HONNO WRTH
WRAIDD Y SETLIAD CYFANSODDIADOL, MAE'R SEILIAU
RHEINY YN ANSEFYDLOG IAWN.**

MAE LLYWODRAETH NEWYDD O'N BLAENAU, A 'DYW HI DDIM YN AMLWG ETO PA DRYWYDD Y BYDD YN EI DDILYN. OND RYDYN NI WEDI DWEUD YN GLIR BETH MAE ANGEN IDDI EI WNEUD YN EIN BARN NI.

FE YSGRIFENNODD PRIF WEINIDOGION CYMRU A'R ALBAN LYTHYR AR Y CYD AT BRIF WEINIDOG Y DEYRNAS UNEDIG, DRANNOETH EI BENODIAD, YN NODI'R PEDWAR CAM Y DYLAI EU CYMRYD AR UNWAITH ER MWYN SEFYDLU PERTHYNAS FWY CYNHYRCHIOL RHWNG LLYWODRAETHAU'R DEYRNAS UNEDIG. DYMA RAI OHONYN NHW:

- YR ANGEN I'R ADOLYGIAD O'R CYSYLLTIADAU RHYNGLYWODRAETHOL ARWAIN YN GYFLYM AT SYSTEM SY'N FWY CADARN AR GYFER CYDWEITHIO AR SAIL CYDRADDOLDEB**
- YMRWYMIAD I GYNNWYS Y LLYWODRAETHAU DATGANOLEDIG YN LLAWN MEWN NEGODIADAU RHYNGWLADOL SY'N EFFEITHIO AR FEYSYDD LLE MAE CYMHWYSEDD WEDI'I DDATGANOLI.**

- **SICRHAU NA FYDD CYMRU NA'R ALBAN YN COLLI CEINIOG OS YW'R DEYRNAS UNEDIG YN GADAEI YR UNDEB EWROPEAIDD.**
- **NEWID CYNIGION Y PAPUR GWYN AR FEWNFUDO AM GYNIGION SY'N ADLEWYRCHU ANGHENION ECONOMI'R DEYRNAS UNEDIG YN GYFAN.**

WNES I A'R GWEINIDOG YN LLYWODRAETH YR ALBAN YSGRIFENNU AR Y CYD HEFYD AT MICHAEL GOVE, YN GALW AM Y PRIF GAMAU YMARFEROL MAE ANGEN EU CYMRYD DROS Y MISOEDD NESAF ER MWYN RHOI SYLFAEN FWY CADARN I GYSYLLTIADAU RHYNGLYWODRAETHOL – A HYNNY AR FYRDER.

MAE HYN YN ADLEWYRCHU DAU BETH. YN GYNTAF, MAE CYSYLLTIADAU RHYNGLYWODRAETHOL YN YMWNEUD Â'R BERTHYNAS RHWNG POB RHAN O'R DEYRNAS UNEDIG, NID JYST PERTHYNASAU BILATERAL RHWNG LLYWODRAETH Y DEYRNAS UNEDIG A'R LLYWODRAETHAU DATGANOLEDIG.

**YN AIL, ER FOD GWAHANIAETHAU YN EIN HUCHELGAIS
CYFANSODDIADOL, MAE'R BERTHYNAS RHYNGOM NI A
LLYWODRAETH YR ALBAN YN GADARN IAWN, AC MAE
HYNNY WEDI TALU'I FFORDD. PAN RYN NI WEDI
ANGHYTUNO YN DDIWEDDAR GYDA LLYWODRAETH Y
DEYRNAS UNEDIG ROEDD MODD I NI SICRHAU LLAWER
MWY O GONSESIYNAU DRWY GYDWEITHIO NAG Y
BYDDEN NI WEDI'U HENNILL WRTH EIN HUNAIN. FELLY
BYDDWN NI AM DDAL ATI I GYDWEITHIO'N AGOS Â'N
CYDWEITHWYR YN YR ALBAN DROS Y MISOEDD NESAF.**

**OHERWYDD, ER GWAETHAF EIN BOD NI'N GALW
GALWAD AM AIL REFFERENDWM, OS YDYN NI I GREDDU
PRIF WEINIDOG Y DEYRNAS UNEDIG, BYDDWN NI'N
GADAEL YR UNDEB EWROPEAIDD AR DDIWRNOD OLAF
MIS HYDREF, DOED A DDELO- " DO OR DIE."**

**RHAID I NI FOD MOR BAROD Â PHOSIB AM HYNNY,
BETH BYNNAG SY'N DIGWYDD. AC RYDYN NI WEDI – AC
YN PARHAU DROS WYTHNOSAU'R HAF I WEITHIO'N
GALED TU HWNT AR GYFER HYNNY.**

**OND BYDD ANGEN INNI BARATOI HEFYD AR GYFER YR
HER FAWR NESAF I'R BETHYNAS
RHYNGLYWODRAETHOL, A FYDD YN DEILLIO'N
UNIONGYRCHOL O'R FFAITH EIN BOD YN GADAEI YR
UNDEB EWROPEAIDD .**

**WRTH I NI SYMUD O NEGODI TELERAU EIN
HYMADAWIAD AT NEGODI EIN PERTHYNAS YN Y
DYFODOL Â'R UNDEB EWROPEAIDD A'R BYD YN
EHANGACH, MAE TENSIWN YN CODI SY'N
ANGENRHEIDIOL I NI EI DDATRYYS.**

**Y CWESTIWN SYLFAENOL YW: SUT Y GALLWN NI
SICRHAU BOD EIN BUDDIANNAU DATGANOLEDIG YN**

CAEL EU CYNRYCHIOLI'N BRIODOL WRTH I'R DEYRNAS UNEDIG GEISIO MEITHRIN CYSYLLTIADAU NEWYDD – GYDA'R UNDEB EWROPEAIDD A THU HWNT.

MAE'N SAFBWYNT NI YN GWBL GLIR. YN Y DYFODOL, RHAID I LLYWODRAETH CYMRU GAEL RHAN LAWN YN Y BROSES O NEGODI EIN CYSYLLTIADAU RHYNGWLADOL. NI DDYLAI LLYWODRAETH Y DEYRNAS UNEDIG, FEL ARFER, FWRW YMLAEN Â SAFBWYNT NEGODI SY'N EFFEITHIO AR GYMHWYSEDD DATGANOLEDIG ONI BAI BOD HYNNY WEDI'I GYTUNO GYDA'R LLYWODRAETHAU ERAILL. A HYD YN OED PAN FYDD MATER WEDI'I GADW'N ÔL YN LLWYR, MAE'N AML YN MYND I FOD YN WIR EI FOD YN EFFEITHIO AR AGWEDDAU AR FYWYD SYDD WEDI'U DATGANOLI – MAE POLISI MUDO YN ENGRAIFFT O HYNNY, A'R EGWYDDOR YW Y DYLAI LLYWODRAETH Y DEYRNAS UNEDIG O LEIA CEISIO CYTUNDEB Y LLYWODRAETHAU ERAILL I SYMUD YMLAEN YN YR MEYSYDD HYNNY HEFYD.

AR HYN O BRYD, MAE HON YN DRAFODAETH RHWNG LLYWODRAETHAU, DEDDFWYR A'R RHAI SYDD Â DIDDORDEB MEWN MATERION CYFANSODDIADOL. OND YN Y PEN DRAW BYDD Y TRAFODAETHAU A'R PENDERFYNIADAU HYN YN EFFEITHIO'N GWBL UNIONGYRCHOL AR FYWYDAU UNIGOLION YNG NGHYMRU.

MAE RHAI YN DIFLASU PAN FYDDWCH YN SÔN AM EGWYDDORION CYFANSODDIADOL ASTRUS, OND BYDDAN NHW'N YMATEB YN DDIGON GYFLYM OS CAWN NI EIN GORFODI I DYFU CNYDAU GM NEU I WERTHU TEGANAU PLANT SYDD EFALLAI'N BERYGLUS, A HYNNY OHERWYDD YMRWYMIADAU A GAFODD EU GWNEUD MEWN TRAFODAETHAU NAD OEDDEN NI'N RHAN OHONYN NHW. FELLY MAE HYN YN "ISSUE" BYWYD GO IAWN.

MAE POBL CYMRU, YR ALBAN A GOGLEDD IWERDDON WEDI PLEIDLEISIO DROS WELD EU LLYWODRAETHAU A'U SENEDDAU DATGANOLEDIG YN GWNEUD

**PENDERFYNIADAU AR AGWEDDAU PWYSIG O'U
BYWYDAU, O FEWN UNDEB EHANGACH. A RHAID I
LLYWODRAETH Y DEYRNAS UNEDIG DDEALL MAI'R
FFORDD ORAU O SICRHAU BOD YR UNDEB YN GWEITHIO
- AC YN GWEITHIO'N WELL - YW PARCHU DATGANOLI,
EI GEFNOGI AC, YN WIR, EHANGU ARNO.**

**HYD YN OED HEB BREXIT, MAE'N AMLWG BOD ANGEN I
AGWEDD LLYWODRAETH Y DEYRNAS UNEDIG AT
DDATGANOLI NEWID YN GYFANGWNBL. AR HYN O
BRYD, AGWEDD AMWYS IAWN SYDD GANDDI. NEU'N
WAETH NA HYNNY, RHYW AGWEDD OS BYDDWN NI'N
UFUDD, Y BYDD LLYWODRAETH Y DEYRNAS UNEDIG YN
DDIGON CAREDIG I ROI RHYWFAINT O BWERAU
HUNANLYWODRAETHU INNI. DATGANOLI Â'R AGWEDD
"BYDDWCH YN DDIOLCHGAR AM YR HYN RYDYCH CHI'N
EI GAEL".**

**WNAWN NI DDIM DERBYN HYNNY BELLACH. MAE'N
RHAID I HYNNY NEWID. MAE ANGEN EDRYCH AR
DDATGANOLI AR SAIL PARCH CYDRADD A
CHYFRANOGAETH GYFARTAL RHWNG Y GWAHANOL
LYWODRAETHAU, YN HYTRACH NA'R AGWEDD AT
DDATGANOLI FEL "CYMWYNAS" A WELWN NI AR HYN O
BRYD.**

**MAE BOD YN AELOD O'R UNDEB ARALL HWNNW - YR
UNDEB EWROPEAIDD - WEDI'I SEILIO I RADDAU
HELAETH AR GYDRADDOLDEB RHWNG YR AELODAU, A
HEFYD AR SYBSIDIAREDD. MAE HYNNY'N HOLLOL
HANFODOL I ENNYN CEFNOGAETH Y GWLEDYDD LLAI,
AC YN RHAN ANNATOD O'R GENHADAETH EWROPEAIDD
I GRYFHAU'R UNDEB.**

**I BOB PWRPAS, MAE'R ACHOS DROS NEWID EIN
CYFANSODDIAD NI YN SEILIEDIG AR YR UN DDADL.
GALL YR EGWYDDORION HYNNY, SEF CYDRADDOLDEB A**

**SYBSIDIAREDD, CHWARAE'R UN RÔL YN UNDEB Y
DEYRNAS UNEDIG.**

**OS YW'R UNDEB I OROESI AC OS TAW PARHAU YN RHAN
O'R UNDEB HONNO SYDD ORAU ER LLES CYMRU, MAE'N
HEN BRYD SICRHAU BOD YR EGWYDDORION HYNNY
NAWR YN RHAN GREIDDIOL O'N CYFANSODDIAD HI
HEFYD.**

DIOLCH YN FAWR